# Swyddog Prosiect - Chwaraeon a Lles Actif

## Gwybodaeth Allweddol

| | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygu Strategol |
| **Contract** | Llawn amser, parhaol |
| **Cyflog** | £31,486 i £35,199, yn amodol ar gynnydd mewn costau byw o 1 Awst 2026 |
| **Lleoliad** | Cyfuniad o weithio yn y swyddfa (Caerdydd) a gweithio gartref gydag o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos yn y swyddfa neu mewn digwyddiadau/gemau/cyfarfodydd, yn ôl y rôl. |
| **Dyddiad Cau:** | 20 Awst 2026 |

## Pwrpas y Swydd

Datblygu a rheoli amrywiaeth o brosiectau a gynhaliwyd gan ColegauCymru i gefnogi ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Chwaraeon a Lles Actif.

Cynrychioli ColegauCymru mewn perthynas â phrosiectau Chwaraeon a Lles Actif ac i ddatblygu a gwella ein perthnasoedd strategol.

Rheoli cyllidebau prosiectau, olrhain cynnydd yn erbyn targedau prosiect ac adrodd risgiau i'r Uwch Dîm Reoli.

Sicrhau cyflawniad prosiectau yn amserol, cyfathrebu clir a chanlyniadau llwyddiannus.

Cynhyrchu adroddiadau cynnydd rheolaidd i Uwch Dîm Reoli, Fforwm y Penaethiaid a Bwrdd ColegauCymru, yn ôl yr angen.

## Prif Ddyletswyddau

- Arwain, rheoli a gwerthuso prosiectau presennol, gan gynnwys goruchwylio cyllidebau, amserlenni a gweithdrefnau sicrhau ansawdd
- Gweithredu fel y prif gyswllt ynghylch ymholiadau prosiect Chwaraeon a Lles Actif
- Datblygu cynigion prosiectau, cynllunio amserlenni cyflawni ac olrhain cynnydd yn erbyn cyflawniadau
- Cynllunio, monitro ac adrodd ar wariant cyllideb yn erbyn proffil a datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a nodwyd

- Cymryd cyfrifoldeb am gyfathrebu cynnydd, tynnu sylw at risgiau a chymryd camau mewn modd amserol i sicrhau cydymffurfiaeth
- Cymryd rôl ragweithiol wrth gyfathrebu â thîm ColegauCymru ar ofynion cymorth, cydlynu cynlluniau cyflawni ac ysgrifennu adroddiadau gwerthuso
- Darparu diweddariadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygu Strategol, gan gynnwys tynnu sylw at bryderon posibl yn gynnar
- Cynrychioli ColegauCymru mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol sy'n ymwneud â phrosiectau perthnasol ledled Cymru, ac weithiau ymhellach i ffwrdd
- Gwneud cyflwyniadau i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol ar ganlyniadau ac effaith prosiectau
- Datblygu a chynnal dealltwriaeth gadarn o ddarparu addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith
- Datblygu a chynnal dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi cyhoeddus y mae ColegauCymru a'i randdeiliaid yn gweithredu ynddo
- Cyfrannu at amcanion strategol a gweithredol y Tîm datblygu o fewn ColegauCymru
- Ymgynnull a chydlynu rhwydweithiau perthnasol ColegauCymru, grwpiau gorchwyl a gorffen a choladu a lledaenu gwybodaeth allweddol sy'n deillio o'r cyfarfodydd
- Trefnu, mynychu a darparu cymorth mewn digwyddiadau Tîm datblygu
- Cydymffurfio â chyfrinachedd a sicrhau bod data sensitif yn cael ei brosesu yn unol â gweithdrefnau Diogelu Data
- Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill fel y cyfarwyddir gan y Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygu Strategol

## Perthnasoedd Allweddol

Bydd y Swyddog Prosiect yn sefydlu perthynas waith dda gyda holl staff ColegauCymru, cynrychiolwyr ein haelodau a rhanddeiliaid allanol allweddol gan gynnwys Chwaraeon Cymru ac AoC Sport.

Bydd deiliad y swydd yn rhagweithiol yn ei ddatblygiad / ei datblygiad proffesiynol parhaus ei hun ac yn dangos dull hyblyg fel y nodir yn y telerau ac amodau gwasanaeth.

**Nodyn:** Mae'r Disgrifiad Swydd hwn yn gywir ar y pwynt cyhoeddi. Mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd, gellir ei diwygio i adlewyrchu newidiadau i ofynion y rôl.

## Gofynion Iaith Gymraeg

Mae ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn fantais i'r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Byddai'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fantais ac yn sgil dda i'w gael ar gyfer y rôl ond nid yw'n hanfodol. Beth bynnag yw lefel hyfedredd Cymraeg, rhoddir cymorth hefyd i ddatblygu eich sgiliau iaith ac i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â ColegauCymru i drafod y gofyniad hwn. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Manyleb y Person

| **Meini prawf Hanfodol** |
|---|
| Cymhwyster mewn maes pwnc perthnasol a/neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn cyflawni prosiectau, chwaraeon, lles actif, addysg, gwasanaethau cyhoeddus neu faes cysylltiedig. |
| Profiad dangosadwy o gynllunio, cyflawni a gwerthuso prosiectau, gan gynnwys rheoli amserlenni a chyllidebau. |
| Profiad o weithio gydag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol, gyda'r gallu i adeiladu perthnasoedd effeithiol ar draws sefydliadau a sectorau. |
| Sgiliau trefnu cryf, gyda'r gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith, gweithio o dan bwysau, rheoli dyddiadau cau cystadleuol a chyflawni gwaith i'r safonau y cytunwyd arnynt. |
| Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gan gynnwys y gallu i gynhyrchu adroddiadau clir, diweddariadau a deunyddiau gwerthuso ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd. |
| Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm, tra hefyd yn dangos menter a gweithio'n annibynnol lle bo angen. |
| Dull cadarnhaol ac ymarferol o ddatrys problemau, gyda'r gallu i ymateb yn hyblyg i ofynion prosiect sy'n newid. |
| Y gallu i deithio a chynrychioli ColegauCymru yn broffesiynol mewn cyfarfodydd, digwyddiadau, gemau a grwpiau rhanddeiliaid ledled Cymru ac weithiau ymhellach i ffwrdd. |
| Cymhwysedd wrth ddefnyddio cymwysiadau Microsoft 365, gan gynnwys Teams, Outlook, Word, Excel a PowerPoint, a'r gallu i ddefnyddio offer digidol i reoli prosiectau, cofnodion, cyfarfodydd ac adrodd. |
| Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cyfrinachedd, diogelu data, a gofynion Safonau'r Gymraeg. |
| Meini prawf dymunol |
| Profiad o weithio yn neu gyda'r sectorau chwaraeon, gweithgarwch corfforol, lles actif, addysg, ieuenctid, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. |
| Profiad o gydlynu rhwydweithiau, gweithgorau, grwpiau tasg a gorffen, neu gyfarfodydd aml-randdeiliaid. |

| |
|---|
| Profiad o drefnu neu gefnogi digwyddiadau, gemau, twrnameintiau, cynadleddau neu weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid. |
| Profiad o ddatblygu cynigion prosiect neu gynlluniau cyflawni. |
| Dealltwriaeth dda o'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru, neu ddiddordeb mewn datblygu gwybodaeth amdano. |
| Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi sy'n effeithio ar addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, chwaraeon, iechyd, lles neu bobl ifanc yng Nghymru. |
| Profiad o baratoi, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ansoddol a/neu feintiol i gefnogi adrodd, gwerthuso a gwneud penderfyniadau. |
| Y gallu i fonitro cynnydd yn erbyn targedau prosiect, nodi risgiau neu broblemau yn gynnar, a chymryd camau priodol i gefnogi cyflawni yn llwyddiannus. |
| Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwybodaeth am ystyriaethau diogelu neu brofiad o weithio mewn lleoliadau sy'n cynnwys dysgwyr, pobl ifanc, chwaraeon neu weithgarwch cymunedol. |

## Proses ymgeisio

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni pob agwedd ar y Fanyleb Person. Yn ogystal, er mwyn ystyried eich cais**, atebwch y tri chwestiwn isod** (uchafswm o 200 gair fesul cwestiwn).

1. Pa sgiliau ydych chi'n meddwl sydd eu hangen ar Swyddog Prosiect Chwaraeon a Lles Actif i fod yn llwyddiannus?
2. Beth ydych chi'n credu yw'r ffactorau pwysicaf wrth gyflawni prosiect chwaraeon neu les actif yn llwyddiannus ar gyfer y sector addysg bellach?
3. Beth ydych chi'n meddwl yw manteision mentrau chwaraeon neu les actif ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru, a sut fyddech chi'n gwerthuso llwyddiant?

## Gwiriad Datgelu DBS

Sylwch y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad DBS.

## Dyddiad Cau

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i HR@colegaucymru.ac.uk erbyn **5.00yp** ar **20 Awst 2026** fan bellaf.

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar os ydym yn derbyn digon o geisiadau ar gyfer y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, cyflwynwch eich cais cyn gynted â phosibl.

## Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau ar **28 Awst 2026** yn swyddfa ColegauCymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at HR@colegaucymru.ac.uk.